# POLISI GWISG YSGOL

YSGOL LLAN-Y-PWLL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad wedi ei Gymeradwyo gan y Corff Llywodraethol** | 16/6/2022 |
| **Dyddiad Adolygu** | 16/6/2025 |
| **Arwyddwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethol)** | |
| **Arwyddwyd (Pennaeth)** | |

Polisi Ysgol Ysgol Llan-y-pwll yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

• hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
• creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
• ymarferol, taclus a thwt;
• gwneud i bob plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
• cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol sydd hefyd yn werth da am arian.

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at gyfle cyfartal a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth. Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu â Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.

Rydym yn annog rhieni neu ofalwyr i brynu gwisg ysgol hyd oed pan fydd plentyn yn yr oed meithrin.
0030

**Mae'r wisg fel a ganlyn;**

- Trowsus ysgol ddu/ sgert ddu/ siorts du;
- Esgidiau du addas
- Crys polo porffor
- Siwmper neu gardigan ysgol ddu
- Ffrog haf porffor

**Gwisg ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol :**

- Siorts du
- Jogyrs du
- Crys T gwyn
- Pympiau du

Gallwch archebu'r wisg ysgol yn uniongyrchol gan RAM - https://ourschoolwear.co.uk/pages/primary-schools.
Mae'r crys T polo, siwmper ysgol a chrys T ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol gyda logo'r ysgol arnynt ar gael gan RAM. Yn ogystal â'r dillad, gallwch archebu bagiau darllen a bagiau Addysg Gorfforol o RAM.

**Enwau ar ddillad / dillad coll**

Rydym yn annog rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gydag enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a phympiau addysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

**Esgidiau**

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau du i'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas i chwarae yn ddiogel tu allan ar fuarth neu gae'r ysgol (tymor yr haf). Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel.

**Gemwaith**

Nid yw'r ysgol yn caniatáu i blant wisgo gemwaith i'r ysgol (ac eithrio 'stỳds'). Rhaid i blant sy'n gwisgo 'stỳds' allu eu cymryd i ffwrdd cyn sesiwn Addysg Gorfforol. Os nad yw hyn yn bosib, disgwylir i'r plant orchuddio'r clustdlysau gyda phlaster.

**Colur**

Nid yw'r ysgol yn caniatáu i blant wisgo colur i'r ysgol. Ni chaniateir ewinedd ffug na farnais ewinedd ar blant yn yr ysgol.

**Os nad yw gwisg ysgol yn cydymffurfio â'r polisi hwn**:

- Bydd y tîm arweinyddiaeth neu'r athro/ athrawes yn cysylltu â rhieni neu ofalwyr i ofyn am eu cefnogaeth, fel y cytunwyd yn y cytundeb cartref/ ysgol.

- Os bydd y problem yn parhau ar ôl i'r cyfnod amser gael ei cytuno, bydd y Pennaeth yn cysylltu â'r rhieni.